

**Teitl y Papur: Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd De Cymru**

**DIBEN**

1. Rhoi'r newyddion diweddaraf i Gyngor Partneriaeth Cymru ar waith y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd De Cymru.

**CEFNDIR**

2. Sefydlwyd y tasglu gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2016 ar ôl etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru a refferendwm yr UE. Fe'i cadeirir gan Alun Davies, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae Ken Skates AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth; Julie James, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip; ac Eluned Morgan, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes; hefyd yn aelodau o'r tasglu.

Aelodau eraill y tasglu yw:

- Ann Beynon, cadeirydd Bwrdd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
  - Andrew Diplock, entrepreneur, cyngorydd busnes a Buddsoddwr Angel
  - Judith Evans, pennaeth Coleg y Cymoedd
  - Dr Chris Jones, Cadeirydd Dros Dro Addysg a Gwella Iechyd Cymru
  - Martin Mansfield, ysgrifennydd cyffredinol, TUC Cymru
  - Y Cyngh Andrew Morgan, arweinydd Cyngor Rhondda Cynon Taf
  - Yr Athro Brian Morgan, Prifysgol Caerdydd
  - Jocelyn Davies, cyn-Ddirprwy Weinidog Tai ac Adfywio Plaid Cymru
  - Fiona Jones, cyfarwyddwr gwasanaethau gwaith Cymru a thîm cyflogwr a phartneriaeth cenedlaethol, yr Adran Gwaith a Phensiynau
  - Gaynor Richards, cyfarwyddwr, Gwasanaeth Gwirfoddol Cyngor Castell-nedd Port Talbot
3. Sefydlwyd y tasglu i adeiladu ar gryfderau ac asedau cymunedau'r Cymoedd i ddatblygu dull newydd o fuddsoddi yn nyfodol ardaloedd mwyaf difreintiedig yn economaidd Cymoedd De Cymru, gan sicrhau bod pob unigolyn yn cael cyfle i gyflawni ei botensial. Diben y tasglu yw llunio a chyfeirio adnoddau Llywodraeth Cymru at ymdrin â'r problemau sy'n wynebu'r Cymoedd.
  4. Ar 20 Gorffennaf 2017 lanswyd Ein Cymoedd, Ein Dyfodol, y cynllun lefel uchel ar gyfer y Cymoedd. Amlinellodd y cynllun hwn dair blaenoriaeth: swyddi o ansawdd da a'r sgiliau cywir i'w cyflawni; gwasanaethau cyhoeddus a chymunedau lleol gwell. Datblygwyd y cynllun yn dilyn adborth gan bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y Cymoedd. Nododd ystod o nodau a chamau gweithredu ym mhob un o'r tri maes â blaenoriaeth, gan gynnwys:

- cau'r bwllch cyflogaeth rhwng Cymoedd De Cymru a gweddill Cymru drwy ddod o hyd i waith i 7,000 yn fwy o bobl erbyn 2021 a chreu miloedd o swyddi newydd, teg, diogel a chynaliadwy;
  - lansio tri phrosiect braenaru i ystyried sut y gellir cydgyssylltu gwasanaethau a darpariaeth leol yn well yn Llanhilledd, Glynrhedynog a Glyn-nedd / Banwen;
  - ymchwilio i ddatblygu Parc Tirwedd y Cymoedd, sydd â'r potensial i helpu cymunedau lleol i ddefnyddio eu hadnoddau naturiol ac amgylcheddol at ddibenion twristiaeth, cynhyrchu ynni ac iechyd a lles.
5. Cyhoeddwyd cynllun cyflawni, sy'n cyd-fynd â'r cynllun Ein Cymoedd, Ein Dyfodol, ar 7 Tachwedd 2017. Ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol, nodwyd y cam gweithredu yr oedd angen ei gymryd i gyflawni pob ymrwymiad. Nodir mwy na 60 o gamau yn y cynllun cyflawni hwn, ynghyd â'u canlyniadau disgwylidig, sut y cânt eu cyflawni a'r rhanddeiliaid sy'n gysylltiedig â hynny.
6. Nid cynllun ar gyfer y Cymoedd yw'r Cynllun hwn, ond cynllun gan y Cymoedd. Cafodd ei lunio a'i gyhoeddi o ganlyniad i drafodaethau a gafodd y tasglu â phobl o bob rhan o'r Cymoedd. Mae'r tasglu wedi neilltuo amser i wrando a gweithio gyda phobl o bob rhan o'r Cymoedd a bydd yn parhau i weithio yn y ffordd hon.
7. Cefnogir y tasglu gan Fwrdd Tasglu'r Cymoedd, sy'n cynnwys uwch swyddogion o bob un o adrannau'r Llywodraeth a chynrychiolwyr allanol o feysydd iechyd, addysg, tai a bargeinion dinesig. Ei nod yw:
- rhoi cyngor ac argymhellion clir, realistig, ar sail tystiolaeth i lywio gwaith y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd De Cymru er mwyn helpu i gyflawni'r uchelgais a'r weledigaeth a nodir yn "Ein Cymoedd, Ein Dyfodol";
  - arwain a chymryd cyfrifoldeb cyffredinol am gyflawni'r camau gweithredu allweddol a'r gweithgareddau a nodir yn "Ein Cymoedd, Ein Dyfodol" yn llwyddiannus.

## **TRAFODAETH**

### **Cydweithredu ac ymgysylltu**

8. Gan weithio gyda phobl sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymoedd De Cymru, mae'r Tasglu Gweinidogol yn allweddol i lunio gwaith Llywodraeth Cymru, yn enwedig wrth newid a gosod polisi'r llywodraeth mewn perthynas â'r Cymoedd. Nid diben y tasglu yw sefydlu biwrocratiaethau newydd, na sefydlu mathau newydd o ddarpariaeth, ond yn hytrach dod â phobl at ei gilydd, gweithredu fel catalydd ar gyfer newid, gan chwilio am atebion i gwestiynau sydd wedi bod yn ein hwynebu ni ers sawl cenhedlaeth.
9. Er mwyn llwyddo, bydd y tasglu yn dod â holl adnoddau Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid niferus ynghyd i gefnogi'r Cymoedd. Bydd angen i nifer eang o sefydliadau'r sector cyhoeddus (gan gynnwys Llywodraeth Cymru; awdurdodau lleol; y ddwy fargen ddinesig; y GIG; ysgolion a phrifysgolion), partneriaid y trydydd sector a busnesau preifat gydweithio i gyflawni'r camau gweithredu a

nodir yn "Ein Cymoedd, Ein Dyfodol". Wrth i waith ar y cynllun cyflawni fynd rhagddo, bydd ymgysylltu â'r cyhoedd a busnesau ledled y Cymoedd yn parhau. Mae'r ateb i lwyddiant y cynllun yn eu dwylo nhw; maent wedi llunio'r cynllun ac mae eu cefnogaeth barhaus yn hanfodol i gyflawni'r uchelgeisiau a nodir ynddo. Bydd y gwaith hwn yn ategu ac yn cyd-fynd â'r gwaith y mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ymgymryd ag ef yn eu meysydd nhw.

### **Swyddi o ansawdd da a'r sgiliau i'w cyflawni**

10. Mae'r cynllun yn nodi targed uchelgeisiol o helpu 7,000 o bobl ddi-waith neu economaidd anweithgar sy'n byw yn y Cymoedd i ddod o hyd i waith teg drwy greu miloedd o swyddi newydd, teg, diogel a chynaliadwy yn y Cymoedd erbyn 2021.
11. Fel rhan o'r gwaith o gyflawni'r targed ymestynnol hwn, nodwyd saith lleoliad ar gyfer canolfannau strategol ar draws Cymoedd De Cymru yn y cynllun cyflawni; Caerffili/Ystrad Mynach, Castell-nedd, Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr, Glynebwy, Pontypridd/Trefforest, Merthyr Tudful a Chwibrân. Bydd y rhain yn ardaloedd lle bydd buddsoddiad cyhoeddus yn canolbwyntio ar greu cyfleoedd ar gyfer buddsoddiad yn y sector preifat a chreu swyddi newydd a chyfleoedd. Ers mis Tachwedd cynhaliwyd cyfres o seminarau yn yr ardaloedd hyn, gan weithio gydag Awdurdodau Lleol a rhanddeiliaid i nodi prosiectau y gellir eu hariannu a'u cyflawni ar y cam datblygu cyntaf ym mhob un o'r canolfannau strategol erbyn 2021. Cynhaliwyd y seminar olaf yng Nglynebwy ar 29 Ionawr 2018. Caiff cynigion prosiect eu hystyried a chyhoeddir rhaglen fuddsoddi wedi ei chostio'n gychwynnol ar gyfer pob un o'r canolfannau ym mis Ebrill 2018.
12. Drwy'r egni a'r buddsoddiad a gynllunnir ar gyfer mentrau newydd, megis Bargaen Ddinesig Prifddinas-ranbarth Caerdydd (sy'n cynnwys Metro De Cymru) a Bargaen Ddinesig Dinas Ranbarth Bae Abertawe, sy'n gyson â'n dull ehangach o weithio'n rhanbarthol, bydd cyfle i ddwyn ynghyd fusnesau sydd eisoes yn bodoli, llywodraeth leol, y trydydd sector, sefydliadau dinesig gan ddatblygu cynllun cydlynus i hyrwyddo'r rhanbarth ar gyfer buddsoddiad yn ogystal â chydgyssylltu buddsoddiad sydd eisoes ar gael mewn ffordd ddoethach.
13. Maes gweithredu arall o bwys yn "Ein Cymoedd, Ein Dyfodol" yw'r economi sylfaenol. Mae hon yn rhan wirioneddol bwysig o'r economi ar gyfer y Cymoedd a bydd creu a manteisio ar gyfleoedd newydd ar draws ystod o sectorau, gan gynnwys gofal plant, lle mae Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu cynnig mwyaf hael y DU ar gyfer rhieni sy'n gweithio sydd â phlant tair a phedair oed a gofal cymdeithasol, yn hollbwysig.
14. Mae pecyn pwrpasol, integredig o gymorth yn cael ei baratoi ar gyfer y busnesau hynny yn y Cymoedd sydd fwyaf tebygol o dyfu. Mae'n hanfodol sicrhau bod busnesau, cyflogwyr ac entrepreneuriaid yn ymwybodol o'r mathau gwahanol o gymorth sydd ar gael i'w helpu i greu swyddi newydd a hybu eu heconomi leol. Fel rhan o'r strategaeth datblygu economaidd newydd mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno contract economaidd newydd. Bydd disgwyl i unrhyw fusnes neu

gyflogwr sy'n elwa mewn rhyw ffordd ar gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru ymrwymo i'r agenda gwaith teg neu ei chefnogi.

### **Gwasanaethau cyhoeddus gwell**

15. Drwy ein trafodaethau â chymunedau a rhanddeiliaid eraill, nodwyd bod rhai gwasanaethau cyhoeddus da ar gael yn y Cymoedd ond nad ydynt bob amser mor gydgyssylltiedig ag y gallent fod. Mae tri o uwch-swyddogion y Llywodraeth wedi cael eu penodi yn Swyddogion Braenaru'r Cymoedd ar gyfer tair cymuned - Llanhilledd, Glyn-nedd/Banwen a Glynrhedynog. Maent yn edrych ar y modd y gellir integreiddio gwasanaethau a darpariaeth leol yn well a nodi unrhyw rwystrau sy'n atal cymunedau rhag cyflawni eu potensial. Bydd y prosiectau braenaru hyn yn sbarduno newid o fewn Llywodraeth Cymru ac yn helpu i wella gwasanaethau lleol yn y tair cymuned.

16. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i ymchwilio i'r rhan y mae canolfannau cymunedol yn ei chwarae i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus integredig. Mae gwaith mapio yn mynd rhagddo i bennu:

- ble mae'r canolfannau cymunedol yn awdurdodau lleol y Cymoedd;
- pa wasanaethau a gynigir ganddynt;
- a oes unrhyw fylchau wedi'u nodi;
- a oes cyfleoedd ar gyfer gwella.

Mae ymarfer tebyg wedi mapio'r holl gyfraniadau gan adrannau Llywodraeth Cymru a allai gefnogi canolfannau cymunedol.

17. Un o'r pwyntiau a godwyd dro ar ôl tro mewn cyfarfodydd ym mhob rhan o'r Cymoedd fu'r angen i bobl allu manteisio ar drafnidiaeth leol, fforddiadwy o ansawdd uchel. Yn ogystal â sicrhau bod cymunedau'r Cymoedd yn elwa ar Fetro De Cymru, mae'r tasglu yn cydnabod yr angen i weithio gyda darparwyr bysiau a rheilffyrdd er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n adlewyrchu'n well anghenion cymunedau lleol a hefyd ehangu rôl trafnidiaeth gymunedol a chysylltiadau â theithio llesol.

### **Fy nghymuned leol**

18. Rhan sylfaenol o "Ein Cymoedd, Ein Dyfodol" yw ystyried datblygu Parc Tirwedd y Cymoedd, sydd a wnelo ag atgyfnerthu'r Cymoedd fel lle y mae pobl yn falch o'i alw yn gartref; rhywle y mae busnesau yn dewis buddsoddi a gweithredu ynddo; lle y caiff cymunedau eu grymuso ac maent yn dangos balchder yn eu hamgylchedd a lle mae'r amgylchedd a'i dreftadaeth ddiwydiannol ei hun yn rhan annatod o ffordd o fyw pobl.

19. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddarparu tîm cymorth i arwain datblygiad y parc tirwedd, a fydd yn gweithio gyda chymunedau i'w helpu i fanteisio i'r eithaf ar yr amgylchedd naturiol a'u helpu i oresgyn rhwystrau, megis mynediad at gyllid a mynediad i dir cyhoeddus.

20. Mae swyddogion o dîm y Polisi ar Adnoddau Naturiol wedi bod yn gweithio gyda grŵp cyflawni traws-sefydliadol sy'n gweithio ar ddisgrifiad manylach o'r modd y bydd y parc tirwedd yn gweithredu a'r canlyniadau bwriadedig. Caiff hyn ei brofi drwy ddiwyddiadau ymgysylltu ym mhob un o ardaloedd awdurdodau lleol y Cymoedd. Mae'r grŵp hwn hefyd yn cynnwys swyddogion o Dasglu'r Cymoedd, Croeso Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yn ogystal ag Andrew Osborne o Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a David Llewellyn, Cyfarwyddwr, Blaengad Cyf.

## **CAM GWEITHREDU**

21. Er mwyn deall sut mae cynnydd yn cael ei wneud yn ystod oes "Ein Cymoedd, Ein Dyfodol", caiff y cynnydd ei fonitro yn erbyn y dangosyddion llesiant cenedlaethol yng Nghymoedd De Cymru.
22. Gan na fydd y dangosyddion cenedlaethol bob amser yn caniatáu i ni fesur cynnydd yn y byrdymor, caiff adroddiad blynyddol ei gyhoeddi ar y cynnydd a wneir bob blwyddyn. Gwneir hyn yn erbyn y targedau allweddol yn y cynllun, megis y nod o sicrhau bod 7,000 o bobl sy'n ddi-waith neu'n economaidd anweithgar yn cael gwaith teg.
23. Caiff y cynllun cyflawni ei ddiweddarau bob blwyddyn wrth i gamau gweithredu gael eu cymryd ar y cyd â phobl sy'n byw yn y Cymoedd.
24. Bydd aelodau'r tasglu yn goruchwyllo ac yn herio cynnydd parhaus yr hyn a gaiff ei gyflawni yn erbyn y cynllun. Sefydlwyd gweithgorau i edrych ar feysydd penodol o'r cynllun a chaiff pob un ei arwain/cadeirio gan aelod o'r tasglu.
25. Yn ogystal â chael y tasglu i herio cynnydd yn barhaus, mae bwrdd y rhaglen yn atebol am oruchwyllo, monitro a herio'r cynnydd a wneir yn erbyn pob un o'r camau gweithredu yn y cynllun cyflawni.
26. Caiff cynllun ymgysylltu ei gyhoeddi yn y misoedd i ddod a fydd yn nodi sut y bydd y tasglu yn ymgysylltu â phobl mewn cymunedau yng Nghymoedd De Cymru ac yn eu grymuso er mwyn sicrhau bod y cynlluniau hyn yn diwallu anghenion pobl ac yn bodloni eu disgwyliadau.
27. Gwella ffyniant, trechu tlodi ac adfywio Cymoedd De Cymru yw cyfrifoldeb pob un o aelodau'r Cabinet a phob Gweinidog yng Nghymru. Mae dull gweithredu sy'n cydgysylltu pob rhan o'r Llywodraeth a chydweithredu â phartneriaid cyflawni yn hanfodol ar gyfer llwyddiant.

**Maureen Howell, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cydraddoldeb a Ffyniant  
Llywodraeth Cymru**

15 Ionawr 2018